



Polisi Diogelu Data
07/10/2008

CYNNWYS

RHAN A

AMODAU CYFFREDINOL

1	CYFLWYNIAD	3
2	BETH YW DATA PERSONOL?	3
3	BETH YW PROSESU?	4
4	Y RHEOLAU AR GYFER PROSESU DATA PERSONOL	4
5	MESURAU CYDYMFFURFIAETH	10
6	EITHRIADAU	10
7	DIOGELU DATA AR GYFER Y GWEITHLU	11
8	MONITRO	12

RHAN B

RHEOLAU CYFLOGAETH

1	Y RHEOLAU AR GYFER PROSESU DATA PERSONOL	13
2	CANIATÂD	15
3	MONITRO	17
4	I GLOI	17

RHAN A

POLISI DIOGELU DATA

1. CYFLWYNIAD

Mae Deddf Diogelu Data 1998 ("DDD/DPA") yn rhoi hawl i'r unigolyn, gan gynnwys rhai sy'n cael eu cyflogi, lle cesglir neu brosesir gwybodaeth neu "ddata personol" amdano/i, naill ai â llaw neu ar ffurf electronig. Nid yw'r polisi'n gwahaniaethu rhwng data sy'n cael ei gasglu â llaw a'r un ar ffurf electronig.

Mae'r polisi hwn yn disgrifio'r gofynion ar gyfer prosesu data personol gan S4C er mwyn cydymffurfio â'n goblygiadau cyfreithiol.

Mae S4C wedi ymroi i gyflawni ei oblygiadau dan y ddeddfwriaeth diogelu data ynglŷn â phrosesu data personol sy'n gysylltiedig â'r busnes a thrwy wneud hyn bydd yn cwrdd â disgwyliadau'r gweithlu, y gwylwyr, y cyflenwyr a'r awdurdodau rheoleiddio.

Er mwyn sicrhau y gweithredir cydymffurfiaeth y DDD yn gyson trwy S4C, mae unigolyn wedi ei benodi i gyflawni'r rôl o fod yn Swyddog Diogelu Data S4C ("y Swyddog Diogelu Data"). Cewch fanylion pwy yw'r Swyddog Diogelu Data ar Fewnwyd S4C neu drwy holi'r Adran Adnoddau Dynol.

2. BETH YW DATA PERSONOL?

Data personol yw gwybodaeth am unigolyn sy'n fyw (mae hyn yn cynnwys partneriaeth ond nid endydau corfforaethol megis cwmnïau) y gellir eu hadnabod ar sail y wybodaeth honno, naill ai ynghyd â neu heb ychwanegu unrhyw wybodaeth arall. Esiamplau cyffredin o wybodaeth personol y gallai S4C fod yn ei defnyddio ar gyfer busnes bob dydd yw enwau, cyfeiriadau, rhifau ffôn a manylion cysylltu eraill, CV's, adolygiadau perfformiad, cyflogau, manylion breindaliadau, a datganiadau o farn neu fwriad ynglŷn ag unigolion.

Ystyrir bod peth gwybodaeth yn ddata personol sensitif ("Data Personol Sensitif"). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â:

- hil neu darddiad ethnig;
- barn wleidyddol;
- crêd grefyddol neu rywbeth cyffelyb;
- aelodaeth o undebau llafur;
- cyflwr corfforol neu feddyliol;
- tueddfryd/ymddygiad rhywiol; neu
- wybodaeth am drosedd a gyflawnwyd neu yr honnir iddi gael ei chyflawni ac unrhyw achos llys cysylltiedig â hyn, gan gynnwys dyfarniad neu ganlyniadau'r gwrandawiadau hynny.

Os yw'r wybodaeth yn cael ei hystyried yn Ddata Personol Sensitif, mae rheolau cadarnach yn bodoli ynglŷn â chyfiawnhau prosesu unrhyw wybodaeth o'r fath.

Os ydych mewn unrhyw amheuaeth a oes unrhyw fwriad i brosesu gwybodaeth yn dod o fewn cylch gwaith yr hysbysiad yna dylech ofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data cyn dechrau proses o'r fath (gweler Adran 4.3 am fanylion yr hyn y caniateir ei brosesu'n ôl yr hyn a ddynodir yn yr hysbysiad gan S4C).

3. BETH YW PROSESU?

Mae S4C yn prosesu data personol os yw'n cadw data personol a/neu'n gwneud rhywbeth sy'n ymwneud â'r wybodaeth honno megis ei newid neu ei dileu, hawl i'w gweld, ei lawrlwytho, ei hadolygu neu ei throsglwyddo.

Nid oes gwahaniaeth rhwng gwybodaeth wedi ei storio fel cofnod wnaed â llaw neu sydd wedi ei phrosesu'n awtomatig (h.y. wedi ei phrosesu ar gyfrifiadur neu brosesydd geiriau).

Os cedwir y wybodaeth ar ffurf copi caled â llaw yn unig, ni fydd yn cyfri dan y DDD os nad yw mewn system ffeilio strwythuredig (gyda'r wybodaeth yn cael ei chadw mewn modd y gellir canfod y wybodaeth drwy chwilio dan enw unigolyn). Er enghraifft, felly, nid yw gwybodaeth sy'n cael ei gadw ar ffeil yn ôl trefn y wyddor yn system ffeilio strwythuredig ac os mai dyna'r unig ddull o'i chadw ni fydd yn dod dan reolau'r DDD a welir isod. Cyn penderfynu nad yw gwybodaeth yn cael ei chadw o fewn system ffeilio berthnasol, dylid gofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data.

4. Y RHEOLAU AR GYFER PROSESU DATA PERSONOL

Rheolir unrhyw ddadlennu a defnyddio a wneir o'r data personol sy'n cael ei gadw gan S4C gan y rheolau canlynol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r DDD.

4.1 Hysbysiad

Mae'n ofynnol i S4C hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth (a adweinid cyn hynny fel Y Comisiynydd Diogelu Data) am y prosesu data personol sy'n cael ei weithredu gan S4C. Mae S4C wedi ei hysbysu am y prosesu yn unol â'r gofynion ac wedi penodi Swyddog Diogelu Data i adolygu a chydlynu prosesu data personol o fewn S4C yn unol â'r DDD a'r arferion da sy'n cael eu hargymell. Ni all S4C yn gyfreithiol ond prosesu data o fewn cylch gwaith yr hysbysiad gweler adran 4.3 am ragor o wybodaeth ar y pwynt hwn).

Ceir rhagor o wybodaeth am swyddogaeth y Swyddog Diogelu Data yn ddiweddarach yn y polisi hwn.

4.2 Rhaid i'r defnydd o Ddata Personol fod yn Deg a Chyfreithiol

Rhaid i S4C sicrhau bod:

- unigolion, lle bo hynny'n bosibl, yn cael gwybod am y data personol sydd wedi ei sicrhau neu ei gadw, beth oedd y ffynhonnell ac i ba bwrpas y gall y data personol gael ei ddefnyddio a'i ddatgelu; a
- sicrhau bod caniatâd, yn y mwyafrif o achosion, wedi ei roi ar gyfer defnyddio'r wybodaeth.

Os yw'r manylion am y prosesu a fwriedir yn wybyddus i'r unigolyn ar yr adeg y bydd y wybodaeth bersonol yn cael ei chasglu, yna, yn gyffredinol, ystyrir bod caniatâd cyffredinol wedi ei roi gan yr unigolyn wrth ddarparu'r wybodaeth. Os nad yw'r wybodaeth wedi ei derbyn yn uniongyrchol oddi wrth yr unigolyn sy'n oddrych (*subject*) y data (e.e. gan drydydd parti) yna mae'n bwysig bod yr unigolyn yn derbyn y wybodaeth berthnasol uchod a bod gan S4C yr hawl i ddefnyddio gwybodaeth o'r fath. Fodd bynnag, yn gyffredinol, bydd rhaid i S4C gael caniatâd penodol yr unigolyn ar gyfer prosesu Data Personol Sensitif ac yn yr achos hwn ni ellir ystyried bod caniatâd wedi ei ganiatáu. Os nad oes caniatâd penodol wedi ei dderbyn neu nad yw'r wybodaeth wedi ei derbyn yn uniongyrchol gan yr unigolyn, ni fydd S4C yn prosesu'r wybodaeth hon oni bai eu bod wedi derbyn y caniatâd perthnasol neu fod ganddyn nhw hawl cyfreithiol i wneud hynny. Gwelir manylion dros gyfiawnhau prosesu data o'r fath yn adrannau 2.1 a 2.2 o Adran B o'r Polisi hwn (fel y nodir isod).

Os yw'r rhesymau dros brosesu'r data hwnnw'n newid, yna rhaid hysbysu goddrych y data am hynny.

O dro i dro, gall gofynion busnes penodol a/neu ddarpariaeth benodol arall y DDD, gyfiawnhau prosesu heb ganiatâd. Fodd bynnag, dim ond y Swyddog Diogelu awdurdodi prosesu o'r fath heb ganiatâd.

Wrth ddelio â Data Personol Sensitif rhaid bob amser ystyried sut i ddiogelu gwybodaeth o'r fath. Yn arbennig pan fo gwybodaeth o'r fath yn cael ei gynnig gan S4C (yn unol â rheolau'r DDD) i'r un sy'n oddrych y data neu i drydydd parti awdurdodedig, yna rhaid gwneud hynny mewn modd sy'n amddiffyn diogelwch gwybodaeth o'r fath.

Ni ddylid anfon Data Personol Sensitif drwy ffacs os nad yw'n mynd at rif ffacs cyfrinachol neu uniongyrchol, a bod y neges ffacs wedi ei nodi fel un cyfrinachol a bod yr un sydd i'w dderbyn wedi ei hysbysu ymlaen llaw ei fod yn cael ei anfon. Os oes rhaid anfon Data Personol Sensitif ar e-bost, dylid gofyn bob amser am gyngor gan y Swyddog Diogelu Data.

4.3 Ar gyfer Dibenion Cyfreithlon Penodol yn Unig y dylid defnyddio Data Personol

Ni ddylai S4C ddefnyddio data personol ond ar gyfer:

- dibenion cyfreithlon; a
- lle mae'n gynwysedig yn hysbysiad S4C i'r Comisiynydd Gwybodaeth (gweler isod).

Dyma'r prif ddibenion y mae S4C wedi eu cynnwys o fewn yr hysbysiad:

- Gweinyddu staff;
- Hysbysebu, marchnata a chysylltiadau cyhoeddus;
- Cyfrifon a chofnodion;

- Gweinyddu gwybodaeth a banc data;
- Rhwystro trosedd ac erlyn Troseddwy
- Codi arian;
- Gwireddu amcanion sefydliadau elusennol neu gorff gwirfoddol;
- Newyddiaduraeth a'r cyfryngau; ac
- Ymchwil

Rhif hysbysiad S4C yw Z7331203. Mae'r hysbysiad hwn yn rhestru'r dibenion y gall S4C brosesu data personol. Rhaid hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw brosesu ychwanegol a bydd yr hysbysiad yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw brosesu ychwanegol. Gellir cael copi o'r hysbysiad oddi wrth y Swyddog Diogelu Data neu oddi wrth y Cofrestr o Reolwyr Data / Register of Data Controllers sydd ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth (www.ico.gov.uk). Os ydych mewn unrhyw amheuaeth os yw'r prosesu y caniateir i chi ei gyflawni wedi ei gynnwys yn yr hysbysiad, yna rhaid i chi holi'r Swyddog Diogelu Data.

Rhaid i unrhyw brosesu ar gyfer dibenion ychwanegol gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Swyddog Diogelu Data cyn i'r prosesu ddigwydd.

Os oes unrhyw aelod o'r gweithlu neu swyddog yn S4C sydd wedi neu'n bwriadu creu eu system neu gofnod eu hunain, er enghraifft taenlen neu indecs bas data/cerdyn, yna dylai sicrhau bod y prosesu'n gyson â'r dibenion a nodir o fewn hysbysiad S4C a'i fod yn cydymffurfio â gofynion rheolau'r DDD. Os oes unrhyw amheuon a yw'r cofnod/system yn cydymffurfio â gofynion rheolau'r DDD yna dylid gofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data.

Ar yr amod na fydd hynny'n datgelu pwy yw unigolion, gellir defnyddio gwybodaeth neu ystadegau sydd wedi eu crynhoi i ymateb i geisiadau cyfreithlon mewnol ac allanol am ddata, e.e. arolygon, niferoedd gweithlu.

4.4 Rhaid Cyfiawnhau'r defnydd o Ddata Personol

Rhaid i'r data sy'n cael ei brosesu gan S4C fod yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol ar gyfer dibenion cyfreithlon gweithredol S4C. Rhaid i'r data a gesglir:

- fod yn benodol ar gyfer dibenion penodol y prosesu;
- grynhoi'r cyfan o'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer seilio penderfyniad a wneir yn ystod y dibenion prosesu;
- beidio casglu gwybodaeth sy'n syml yn "ddymunol i'w gael", ond sydd fel arall yn ddianghenraid ar gyfer dibenion y prosesu y mae'r unigolyn wedi cynnig eu manylion ar ei gyfer, ac nad yw'n mynd i gael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion eraill (e.e. marchnata) na chafodd yr unigolyn wybod amdano. Os nad yw gwybodaeth am aelodau eraill y teulu yn gwbl

berthnasol ar gyfer unrhyw ddibenion yr hysbyswyd yr unigolyn amdano, yna ni ddylid casglu'r wybodaeth hon; a

- dylid sicrhau bod goddrych y data yn cael gwybod ar yr adeg y cafodd y wybodaeth ei chasglu ar gyfer dibenion prosesu neu (os yn berthnasol) bod rhaid cael caniatâd wedi hynny.

4.5 Rhaid i'r Data Personol fod yn gywir

Y ffordd orau i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir yw ei gwirio gyda'r unigolyn ar yr adeg bydd y wybodaeth yn cael ei chasglu. Gall peth gwybodaeth bersonol, fel cyfeiriad a manylion cyswllt, cyfrifon banc a chyflogaeth, newid o dro i dro. Os gwnaiff S4C benderfyniad ar sail gwybodaeth anghywir neu os anfonir gwybodaeth i'r cyfeiriad anghywir, yna mae'n bosibl y gall hyn wneud drwg i'r unigolyn. Mae'n bwysig felly bod gwybodaeth, pan fo angen hynny, yn cael ei chadw'n gyfredol.

Os cedwir neu os defnyddir gwybodaeth dros gyfnod maith mae'n bosib bod peth o'r wybodaeth, neu'r cyfan sy'n cael ei chadw, yn anghywir. Rhaid adolygu'r wybodaeth yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn gywir e.e. i sicrhau nad yw cronfa ddata marchnata a rhestrau postio yn cynnwys manylion unigolion sydd wedi cofrestru ar gyfer eu dewis (*preference service*) o wasanaethau (e.e. post neu deliffôn) a bod hysbysiadau sydd wedi eu derbyn gan oddrych y data ei hun i newid y data hwnnw wedi cael ei weithredu.

4.6 Cadw Data – ni ddylid cadw Data Personol am fwy o gyfnod nag sydd ei angen i ddibenion y prosesu gan S4C

Ni ddylai S4C gadw gwybodaeth sy'n ddata personol ar gyfer dim byd ond y dibenion penodol a rhaid ystyried a oes angen cadw gwybodaeth o'r fath unwaith bydd y diben hwnnw ar ben. Er enghraifft, os cedwir gwybodaeth yn cofnodi perthynas gydag unigolyn mae'n ofynnol ystyried a ellir cadw'r wybodaeth am yr unigolyn yn gyfreithlon gan S4C pan fo'r berthynas honno wedi dod i ben. Dylid nodi y gallai fod nifer o resymau dros gadw'r data hyd yn oed os yw'r berthynas ar ben (e.e. gellid cadw'r wybodaeth am y cyfnod statudol perthnasol – cyfnodau'n ymwneud ag unrhyw achosion cyfreithiol posibl, neu yng nghydestun y cyflogedig, ar gyfer trefniadau pensiwn). Os ydych mewn amheuaeth, dylech ofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data.

4.7 Rhaid Prosesu Data Personol yn Unol â Hawliau'r Unigolyn

Mae gan unigolion hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth a brosesir amdany'n nhw ac y mae gofyn i S4C brosesu'r data am yr unigolion yn unol â'u hawliau. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i:

- gael y wybodaeth sydd ar gael drwy wneud cais amdano (gweler Adran 4.11 isod, os gwelwch yn dda); ac
- i wneud cais nad yw S4C yn prosesu gwybodaeth fydd yn achosi neu'n debygol o achosi niwed neu drallod sylweddol a diangen i'r unigolyn.

4.8 Rhaid Trefnu i Ddiogelu Data Personol yn Briodol

Rhaid i S4C fynnu bod mesurau diogelwch technegol a chyfundrefnol ar waith i rwystro prosesu heb awdurdod neu anghyfreithlon, neu rhag colli neu ddifrodi gwybodaeth yn ddamweiniol. Gall fod angen sefydlu mesurau diogelwch arbennig ar gyfer Data Personol Sensitif.

Pan fo angen trosglwyddo gwybodaeth bersonol i drydydd parti sy'n prosesu'r wybodaeth ar ran S4C, ni all y prosesu hynny ddigwydd cyn i'r parti lofnodi Cytundeb Prosesu Data S4C. Dylid ceisio cyngor y Swyddog Diogelu Data i ganfod pa ddogfennau cytundebol ddylid eu defnyddio.

Yn gyffredinol, ni ddylid rhyddhau gwybodaeth i gael ei phrosesu gan drydydd parti nes cael caniatâd yr unigolyn. Os na dderbyniwyd caniatâd, dylid bob amser gofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data cyn datgelu unrhyw ddata personol i drydydd parti.

Ni ddylai data personol gael ei ddatgelu i neb ond y rhai sydd ag awdurdod i'w weld.

Ni ddylid ar unrhyw gyfrif rhyddhau gwybodaeth am unigolyn i rywun sy'n gwneud cais am y wybodaeth dros y ffôn, ffacs neu drwy'r post, os nad ydych wedi cadarnhau pwy yw'r un sy'n gwneud y cais, a bod hawl ganddyn nhw i dderbyn y wybodaeth. Noder nad oes gan rieni (os nad yw'n ymwneud â gwybodaeth am blant dan 16 oed), priod, partneriaid na phlant hawl i gael gwybodaeth am aelod arall o'u teulu neu am bartneriaid a.y.b.

Os ydych yn amau a ddylid rhyddhau'r wybodaeth ai peidio yna dylid cyfeirio'r cais at y Swyddog Diogelu Data.

4.9 Trosglwyddiadau i fannau tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd

Mae'r DDD yn gwahardd trosglwyddo gwybodaeth i fannau tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac eithrio dan rai amodau cyfyngedig. Canlyniad hyn yw na fydd S4C ond yn trosglwyddo gwybodaeth bersonol tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd pan fydd nail ai'r unigolyn dan sylw wedi rhoi caniatâd i'w drosglwyddo, neu fod y trosglwyddiad i wlad (ac eithrio un sy'n cael ei hystyried yn addas gan y Comisiwn Ewropeaidd) lle mae camau priodol yn bodoli i sicrhau bod y wybodaeth a drosglwyddir yn cael ei chadw'n ddiogel neu fod eithriad penodol i'r rheol hon yn weithredol (gweler adran 6 isod am yr eithriadau ar gyfer ymchwil a'r cyfryngau).

Ar hyn o bryd mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys Awstria, Gwlad Belg, Cyprus, Y Weriniaeth Tsiec, Denmarc, Estonia, Y Ffindir, Ffrainc, Yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Gwlad yr Ia, Iwerddon, Yr Eidal, Latfia, Liechtenstein, Lithwania, Lwcsembwrg, Ynys Melita/Malta, Yr Iseldiroedd, Norwy, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Y Weriniaeth Slofac, Slofenia, Sbaen, Sweden a'r DU. Mae'r gwledydd sydd ar hyn o bryd yn cael eu hystyried yn addas yn cynnwys UDA (ond dim ond pan fo'r un sy'n derbyn yn gwmni sydd wedi llofnodi'r egwyddorion "*Safe Harbor principles*"), Yr Ariannin, Y Swistir a Chanada.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau DDD ar drosglwyddo data, rhaid i bob trosglwyddiad gwybodaeth bersonol tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (ac eithrio'r rhai a nodir gan yr eithriadau a restrir yn adran 6 isod) gael eu cymeradwyo'n gyntaf gan y Swyddog Diogelu Data.

4.10 Marchnata Uniongyrchol

Yn ogystal â'r rheolau a nodir yn y DDD am y defnydd o ddata personol, mae rheolau penodol ar gyfer defnyddio data i ddibenion marchnata drwy ddulliau electronig (e-bost, ffacs, teliffôn ac SMS). Gwelir y rheolau hyn yn y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y GE) 2003. Dylech holi'r Swyddog Diogelu Data os nad ydych yn sicr am y rheolau sy'n ymwneud â'r darpar-ddefnydd o ddata personol i ddibenion marchnata uniongyrchol.

Ni ddylai S4C farchnata'n uniongyrchol i unigolion (gan gynnwys partneriaethau busnes) heb yn gyntaf fynnu caniatâd blaenorol yr unigolion hyn. Gellir cael y caniatâd hwn ar yr adeg mae'r wybodaeth yn cael ei darparu gan yr unigolyn. Bydd S4C yn cydymffurfio ag unrhyw gais oddi wrth unigolyn i beidio derbyn deunyddiau marchnata uniongyrchol.

Hefyd, rhaid gwirio'r Gwasanaeth Dewis Teleffôn a'r Gwasanaeth Dewis Ffacs (*Telephone Preference Service & Fax Preference Service*) cyn cysylltu ag unrhyw unigolyn (at ddibenion marchnata) drwy'r teliffon, e-bost, SMS neu ffacs. Rhaid cydymffurfio â phob cais i beidio derbyn deunydd marchnata drwy ffacs, e-bost, SMS neu deliffon.

4.11 Hawl i weld Gwybodaeth

Mae gan S4C drefn ganolog i ddelio ag unrhyw geisiadau am yr hawl i weld gwybodaeth bersonol, yn unol â darpariaeth y DDA. Yn gyffredinol, os gwneir cais o'r fath, rhaid i S4C:

- 4.11.1 roi gwybod i oddrych y data os yw (neu os yw rhywun arall ar eu rhan) yn prosesu data personol amdanyn nhw;
- 4.11.2 os felly, rhaid rhoi disgrifiad i oddrych y data am y wybodaeth bersonol honno, beth yw diben y prosesu a phwy yw'r derbynwyr neu'r dosbarth o dderbynwyr sydd neu bydd yn cael gweld y wybodaeth;
- 4.11.3 hysbysu goddrych y data, mewn fformat dealladwy a pharhaol (os nad yw'r gost o gadw fformat parhaol yn afresymol), am y math o wybodaeth sydd yn y data personol a'i ffynhonnell; a
- 4.11.4 rhoi gwybod i oddrych y data am y rhesymeg tu ôl i benderfyniad am oddrych y data neu sy'n effeithio arno/i sy'n seiliedig ar brosesu'r data personol drwy ddulliau awtomatig.

Delir â phob cais o fewn 40 diwrnod gan y Swyddog Diogelu Data os derbynnir y cais yn ysgrifenedig oddi wrth yr unigolyn, ynghyd â ffi archwilio o £10 wedi ei wneud yn daladwy i S4C. Er mwyn sicrhau cysondeb o ran ymateb, rhaid cyfeirio unrhyw geisiadau ar unwaith i'r Swyddog Diogelu Data, pa un ai yw'n dod oddi wrth un o'r gweithlu neu ffynhonnell allanol.

Yn ogystal â'r "hawl i weld" a nodir yn y DDD, gall staff S4C hefyd weld eu ffeiliau personél, mewn cydweithrediad ag aelod o'r Adran Adnoddau Dynol, a chael nifer rhesymol o gopiâu ohonyn nhw.

5. MESURAU CYDYMFFURFIAETH

Er mwyn i S4C gydymffurfio â'r polisi hwn, ni ddylai unrhyw weithwyr na swyddogion y Cwmni brosesu data personol ond yn y modd sy'n cydymffurfio â'r Polisi Diogelu Data hwn.

6. EITHRIADAU

6.1 Mae'r mesurau yn yr hysbysiad a restrir yn Adran 4.3 uchod yn cynnwys "Ymchwil" a "newyddiaduraeth" ac mae'r prosesu ar gyfer y rhain yn amodol ar nifer o eithriadau i'r rheolau cyffredinol o dan y DDD.

6.2 Ymchwil

Os prosesir gwybodaeth sy'n cael ei hystyried yn ddata personol gan S4C ar gyfer ymchwil yn unig (sydd o dan y DDD yn delio ag ymchwil hanesyddol neu ystadegol) ceir yr eithriadau canlynol i'r rheolau:

- ni ddylid ystyried bod prosesu pellach o ddata personol ar gyfer ymchwil yn unig ynddo'i hun yn anghydnaws â'r dibenion gwreiddiol y casglwyd y data dan sylw ar ei gyfer;
- gellir cadw'r data am gyfnod amhenodol (er gwaethaf cais i gadw data personol fel y cyfeiriwyd yn adran 4.6 uchod);
- nid yw hawl pobl sy'n oddrych y data fel y cyfeiriwyd yn adran 4.11 yn cyfeirio at y data personol a broseswyd ar gyfer dibenion ymchwil o'r fath.

Nid yw'r eithriadau i reolau arferol y DDD fel y rhestrwyd uchod yn berthnasol os prosesir y data dan sylw mewn modd gwahanol i'r hyn a fwriadwyd ar gyfer ymchwil. Yn ychwanegol, er mwyn iddo fod yn gynwysedig yn yr eithrio, rhaid peidio â phrosesu'r data (o ran yr ymchwil a wneir) mewn modd sy'n peri neu'n debygol achosi gofid sylweddol neu niwed i'r person sy'n oddrych y data. Dim ond os derbyniwyd caniatâd y Swyddog Diogelu Data y dylid defnyddio'r eithriad hwn.

6.3 Newyddiaduraeth, Llenyddiaeth neu Gelf

Yn gyffredinol, mae'r data personol a broseswyd gan S4C at bwrpas newyddiadurol, llenyddol neu artistig yn cael ei eithrio o ran fwyaf o reolau'r DDD, er bod S4C yn dal i fod yn oblygedig i ddiogelu'n ddigonol y data personol y mae'n ei brosesu (Seithfed Egwyddor Diogelu Data), hyd yn oed os mai am resymau newyddiadurol y gwneir y prosesu.

Bydd eithrio o'r prosesu am resymau newyddiadurol yn digwydd os gellir dangos:-

- bod y prosesu'n digwydd gyda'r bwriad o gyhoeddi'r deunydd newyddiadurol, llenyddol neu artistig gan S4C neu gan drydydd parti;

- y gellir dangos bod S4C yn rhesymol gredu bod y cyhoeddi er lles y cyhoedd (gan ystyried pwysigrwydd rhyddid mynegiant er lles y cyhoedd); a
- bod S4C yn gallu dangos ei fod yn rhesymol / wedi bod yn rhesymol i ddod i'r casgliad y byddai cydymffurfio â'r eithrio o'r DDD, fel sy'n cael ei restru uchod, yn anghydnaws â'r prosesu a fwriadwyd at bwrpas newyddiadurol, llenyddol neu artistig.

O ganlyniad, rhaid sicrhau caniatâd gan y Swyddog Diogelu Data cyn dibynnu ar yr eithrio hwn.

7. DIOGELU DATA AR GYFER GWEITHLU

Fel arfer, ar y dechrau ceir y data personol o'r ffurflenni cais am swydd a anfonir i S4C ac yna, yn bennaf, gan y gweithlu eu hunain yn y gwerthuso blynyddol.

Y canlynol yw'r ceisiadau am ddata ar weithwyr gan ffynonellau allanol sydd wedi'u hawdurdodi gan S4C:

- 7.1** Ceisiadau gan asiantau a awdurdodwyd gan y gweithiwr/wraig sy'n oddrych y data e.e. cais am forgais, am eirida. Fodd bynnag, dylid cael cadarnhad gan y gweithiwr bod y wybodaeth i'w rhyddhau ac, os yn bosibl, dylid sicrhau caniatâd ysgrifenedig y cyflogedig.
- 7.2** Ceisiadau a wneir i orfodi'r gyfraith (h.y. i atal neu ddatgelu troseddau, asesu neu gasglu unrhyw dreth neu doll neu asesu neu gasglu unrhyw atebolrwydd drwy'r Asiantaeth Cynnal Plant). Caniateir datgeliad dim ond lle byddai methu â datgelu yn debygol o ragfarnu un o'r dibenion hynny. Ym mhob achos, dylid cael tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Heddlu, Cyllid a Thollau EM, a'r Asiantaeth Cynnal Plant am bwrpas y cais.
- 7.3** Ceisiadau am unrhyw broses gyfreithiol orfodol arall.
- 7.4** Ceisiadau, os oes angen brys, i atal anaf a niwed i iechyd.
- 7.5** Ceisiadau sydd eu hangen ar swyddogion awdurdodedig neu gynrychiolwyr undebau llafur cydnabyddedig. Fodd bynnag, dylid cael caniatâd y gweithiwr/wraig bod y wybodaeth i'w rhyddhau ac, os yn bosibl, dylid sicrhau caniatâd ysgrifenedig y gweithiwr/wraig.
- 7.6** Ceisiadau gan ffynonellau allanol wedi eu nodi'n benodol e.e. gweinyddwyr pensiwn er mwyn gweinyddu cynlluniau budd-daliadau mewnol S4C.
- D.S.** Dylai'r holl staff geisio cyfyngu ar y datgeliadau y gofynnir amdanyn nhw o'r tu allan i S4C gymaint â phosibl i'r rhai sy'n angenrheidiol yn ôl y gyfraith.

Mae hawl gan y gweithwyr, o fewn cyfnodau rhesymol (bob chwe mis ym marn S4C) i weld y data personol sy'n cael ei gadw amdanyn nhw, sef y data sydd ddim wedi ei eithrio (gweler isod). Mae ganddyn nhw hefyd hawl i gael gwybod at ba ddibenion y bydd y data yn cael ei ddefnyddio neu y bwriedir ei ddefnyddio a phwy yw'r derbynyddion tebygol (neu'r math o dderbynyddion). Caiff y wybodaeth ganlynol ei heithrio o'r "hawl i weld" hwn:

- Geirda cyfrinachol gan S4C. Ni chaiff geirda y mae'r Cwmni yn ei dderbyn ei eithrio'n awtomatig o dan y broses eithrio hon ond bydd yn cael ei ddiogelu yn yr un modd fel datgeliad o wybodaeth sydd yn cyfeirio at drydydd parti y mae'n bosib canfod pwy ydyw fel y nodir isod;
- Data personol a broseswyd ar gyfer rhagweld wrth reoli neu gynllunio rheoli i'r graddau y byddai datgelu yn debygol o niweidio cynnal y busnes neu'r weithgaredd honno yn unig;
- Data personol sy'n cynnwys cofnodion o fwriadau'r Cwmni, yn ymwneud ag unrhyw drafodaethau gyda'r gweithiwr/wraig, i'r graddau y byddai datgelu yn debygol o niweidio'r trafodaethau hynny yn unig;
- Os, er mwyn cydymffurfio â chais am ddatgeliad, byddai'n rhaid i S4C ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud â thrydydd parti canfyddadwy, yna nid oes angen datgelu oni bai bod y trydydd parti wedi cytuno neu ei fod yn rhesymol fel arall i gydymffurfio â'r cais heb ganiatâd trydydd parti o'r fath. Â bod yr opsiynau hyn yn methu, rhaid i'r data gael ei olygu cyn ei ddatgelu fel na ellir canfod pwy yw'r trydydd parti. Os mai cofnod iechyd yw'r rheswm pam y gwneir cais am ddatgeliad a'r trydydd parti sy'n gwneud y cais yw'r person proffesiynol sydd wedi casglu neu gyfrannu at y cofnod iechyd hwnnw, yna rhaid datgelu. Ni all y gweithiwr/wraig atal y prosesu, fodd bynnag, os ydy'r prosesu'n angenrheidiol i berfformiad contract, y mae'r gweithiwr/weithwraig yn rhan ohono.

8. MONITRO

Gall S4C fonitro'r negeseuon cyfathrebu sy'n dod i mewn a mynd allan er mwyn sicrhau y defnyddir cyfathrebiadau o'r fath at bwrpas busnes cyfreithlon S4C. Gellir monitro am y rhesymau canlynol: -

- sefydlu bodolaeth ffeithiau, i ganfod cydymffurfiaeth ag arferion rheoleiddiol neu hunanreoleiddiol neu weithdrefnau neu i ganfod neu arddangos safonau sydd i'w cyrraedd neu a ddylid eu cyrraedd (rheoli ansawdd a hyfforddiant);
- atal neu ganfod trosedd;
- archwilio neu ganfod y defnydd anawdurdodedig o systemau telathrebu, neu;
- sicrhau system weithredu effeithiol neu fel rhan gynhenid ohoni;
- monitro cyfathrebiadau a dderbyniwyd i benderfynu a ydyn nhw'n gyfathrebiadau busnes neu bersonol;
- monitro cydymffurfiaeth â Pholisi S4C ar ddefnydd o E-bost a'r Rhyngrwyd

Gweithredir holl fonitro o'r math yn unol â rheolau DDD, Rheoliad Deddf Pwerau Ymchwiliol 2000 a Rheoliadau Telathrebu (Arferion Busnes Cyfreithlon) (Ymyrryd mewn Cyfathrebiadau) 2000.

RHAN B

RHEOLAU A CHANLLAWIAU AR GYFER Y GWEITHLU AM DDIOGELU DATA

1. Y RHEOLAU AR GYFER PROESU DATA PERSONOL

Rhaid i'r holl weithwyr wneud eu dyletswyddau mewn modd sy'n sicrhau bod S4C yn cydymffurfio â'i oblygiadau yn ôl y DDD fel a ganlyn:

1.1 Egwyddorion Diogelu Data

Rhaid cadw at yr wyth Egwyddor Diogelu Data. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ddata personol:

1.1.1 gael ei brosesu'n deg;

1.1.2 gael ei brosesu at ddibenion cyfyngedig fel y cofrestrwyd gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth;

1.1.3 fod yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol at y dibenion hyn,

1.1.4 fod yn gywir;

1.1.5 beidio â chael ei gadw'n hwy nag sydd angen;

1.1.6 gael ei brosesu yn unol â'r Ddeddf;

1.1.7 gael ei gadw'n ddiogel; a

1.1.8 pheidio cael ei drosglwyddo tu allan i'r AEE heb y dulliau diogelu angenrheidiol.

1.2 Caniatâd i Brosesu

Dim ond os cafwyd caniatâd yr unigolyn dan sylw neu os nad oes angen caniatâd yn ôl rheolau DDD y dylid prosesu data personol. Ceir y rheolau am gael caniatâd, a lle nad oes angen caniatâd, yn adran 6 isod.

1.3 Rhybudd Prosesu

Rhaid rhoi rhybudd yn cynnwys manylion y prosesu i oddrych y data cyn i ddata personol am oddrych y data gael ei brosesu. Rhaid i'r prosesu gydymffurfio â'r rhybudd hwnnw.

1.4 Rhaid i Gofrestriad S4C Ymdrin â'r Prosesu

Dim ond ar gyfer y dibenion y mae S4C wedi hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth y dylech brosesu data (nodir y dibenion hyn yn adran 4.3 Rhan A y Polisi hwn).

1.5 **Cofnodwch y Data Angenrheidiol yn Unig**

Dylech sicrhau bod y dulliau casglu gwybodaeth bersonol a ddefnyddiwyd wedi eu teilwra dim ond i sicrhau'r wybodaeth bersonol sy'n angenrheidiol i'r dibenion mae wedi ei darparu gan yr unigolyn. Er enghraifft, os nad yw gwybodaeth am aelodau eraill o'r teulu, eu diddordebau, eu hobiau'n wir berthnasol i unrhyw ddiben yr hysbyswyd yr unigolyn amdano, yna, ni ddylid casglu'r wybodaeth hon. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ddelio â data personol sensitif. Os oes unrhyw amheuaeth, dylech drafod ac adolygu dulliau o gaffael data gyda'r Swyddog Diogelu Data. Ni ddylech gasglu data personol sy'n 'ddymunol i'w gael', neu sydd i'w ddefnyddio at ddiben arall (h.y. marchnata) nad yw'r unigolyn wedi cael gwybod amdano.

1.6 **Rhyddhau Data**

Ni ddylech dan unrhyw amgylchiadau ryddhau gwybodaeth am unigolyn i unrhyw berson sy'n gofyn am y wybodaeth hon dros y ffôn, ffacs na thrwy'r post oni bai eich bod wedi sefydlu pwy yw'r person sy'n gwneud y cais a bod ganddyn nhw'r hawl i dderbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdano. Sylwer nad oes gan rieni (oni bai'n ymwneud â phlant dan 16), gwŷr a gwragedd, partneriaid na phlant hawl i wybodaeth am unigolyn arall. Dim ond i'r unigolyn y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddo/iddi dylech chi ryddhau gwybodaeth bersonol. Gallech fod yn euog o drosedd petaech yn datgelu'r wybodaeth i unrhyw un heblaw'r unigolyn heb ganiatâd. Os oes unrhyw amheuaeth gennych, siaradwch gyda'r Swyddog Diogelu Data. Beth bynnag fo'r rheswm – helpu ffrind, cyfeiriad neu rif cyswllt gŵr, ymholiad gan bartner am gyfrif banc – peidiwch â datgelu'r wybodaeth heb ganiatâd yr unigolyn i wneud hynny.

1.7 **Ceisiadau gan Unigolion i Weld y Data sy'n Ymwneud â Nhw eu Hunain**

Os cewch gais gan unigolyn (does wahaniaeth os yw'n gais ysgrifenedig neu ar lafar) i gael copïau o unrhyw wybodaeth a gedwir am yr unigolyn gan S4C (hyd yn oed os nad oes cyfeiriad at y Ddeddf Diogelu Data), rhaid cyfeirio'r cais yn syth at y Swyddog Diogelu Data. Gall aelodau staff S4C weld hefyd, yng nghwmni aelod o'r adran Adnoddau Dynol, eu ffeiliau personél sy'n cael eu cadw gan Adran Adnoddau Dynol S4C a gwneud nifer rhesymol o gopïau ohonyn nhw. Mae'r hawl hwn yn ychwanegol i hawliau aelodau i weld manylion y data personol y mae S4C yn eu cadw amdanyn nhw.

1.8 **Prosesu gan Drydydd Parti**

Mae rhaid i chi beidio trosglwyddo unrhyw ddata personol i drydydd parti (h.y. parti heb fod o dan gontract cyflogaeth gyda S4C) i'w brosesu oni bai eich bod wedi sicrhau'r caniatâd neu'r contract. Os oes amheuaeth gennych, gofynnwch i'r Swyddog Diogelu Data am gyngor cyn rhyddhau gwybodaeth i'w phrosesu.

1.9 **Anfon Data Dramor**

Ac eithrio amgylchiadau cyfyngedig (megis dibenion newyddiadurol – gweler adran 6 Rhan A o'r Polisi hwn), rhaid i chi beidio â throsglwyddo data dramor heb awdurdod y Swyddog Diogelu Data.

1.10 **Cadw, Adolygu a Distrywio Data**

Gan fod gofyn i S4C beidio â chadw gwybodaeth yn hwy nag sydd ei hangen at y dibenion y mae'n cael ei phrosesu ar eu cyfer, rhaid i chi bob amser gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan y Swyddog Diogelu Data am gadw data. Os ydych yn gwybod bod y wybodaeth yn anghywir neu'n gamarweiniol o ran ffeithiau neu wedi dyddio yna trefnwch i'w gywiro cyn gynted â phosibl. Os yw'n bosibl y byddai swm mawr o wybodaeth bersonol/nifer fawr o unigolion yn debygol o gael eu heffeithio, dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data i sicrhau y caiff y dull mwyaf cost effeithiol ei fabwysiadu i ddiweddarau'r wybodaeth hon.

1.11 **Anfon Data Personol Sensitif**

Os bydd arnoch chi angen anfon Data Personol Sensitif ar e-bost, rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, a lle bo'n addas â'r adran TG, i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei diogelu'n briodol. Ni ellir anfon Data Sensitif Personol drwy ffacs oni bai ei fod at rif cyfrinachol neu rif ffacs uniongyrchol, y ffacs wedi'i farcio fel un cyfrinachol a bod yr un sy'n ei dderbyn wedi cael ei hysbysu ymlaen llaw ei fod yn cael ei anfon.

1.12 **Creu Eich System Cofnodi Eich Hun**

Os ydych wedi creu eich system neu'ch cofnod eich hun, er enghraifft, taenlen neu fâs data/cerdyn mynegai, boed ar gyfrifiadur neu ar bapur, sy'n cynnwys data personol rhaid i chi sicrhau bod y Swyddog Diogelu Data yn ymwybodol o'r prosesu a bod y diogelwch priodol wedi ei gymhwyso i'r system hon neu'r cofnod hwn.

1.13 **Gweithio Oddi Allan i'r Adeilad**

Os ydych yn gweithio i ffwrdd o adeilad S4C rhaid rhoi'r ystyriaeth briodol i gydymffurfio â rheolau DDD ac yn arbennig yr angen am fesurau priodol i ddiogelu gwybodaeth. Dylech ofyn i'r Adran Adnoddau Dynol am y gweithdrefnau priodol ar gyfer gweithio o'r tŷ.

1.14 **Ceisiadau am Gopiâu o'n Polisiâu**

Rhaid cyfeirio unrhyw gais gan unigolyn, gweithiwr, gwyliwr, darparwr neu gyflenwr am fanylion Polisi Diogelu Data S4C neu am ein gweithdrefnau diogelwch yn syth at y Swyddog Diogelu Data.

2. **CANIATÂD**

2.1 **Pryd na fydd Angen Caniatâd?**

A bod yr unigolyn dan sylw wedi'i hysbysu'n ysgrifenedig y gellir prosesu ei ddata/ei data gan S4C ar gyfer y diben(ion) perthnasol, yna gallwch brosesu data personol (ond nid Data Personol Sensitif) heb ganiatâd yr unigolyn dan sylw fel a ganlyn:

- 2.1.1 Os yw'r prosesu'n angenrheidiol i berfformiad contract gyda'r person y mae'r data'n cyfeirio ato/ati. Mae hyn yn cynnwys gweinyddu cyflogau a budd-daliadau gweithwyr a chyflenwi archebion cwsmeriaid;

- 2.1.2 Os yw'r prosesu'n angenrheidiol i gymryd camau ar gais y person y mae'r data'n cyfeirio ato/i gyda golwg ar ymrwymo i gontract;
- 2.1.3 Os yw'r prosesu'n angenrheidiol i gydymffurfio ag unrhyw oblygiadau cyfreithiol (ar wahân i oblygiadau a osodir gan gontract). Mae hyn yn cynnwys prosesu gwybodaeth a'i datgelu ar gyfer gweithlu Cyllid a Thollau EM a'r Awdurdod Cyfraniadau, ar gyfer gweithredu gorchymyn atal cyflog a delio â chyfrifon TAW;
- 2.1.4 Os yw'r prosesu'n angenrheidiol i ddiogelu buddiannau hanfodol y person y mae'r data'n cyfeirio ato/ati. Gan fod graddau'r ddarpariaeth hon yn aneglur ac yn cael eu hystyried yn rhai sy'n berthnasol ar gyfer materion gwirioneddol bwysig megis iechyd a bywyd y person dan sylw, ni ddylid dibynnu ar y ddarpariaeth hon heb awdurdod penodol y Swyddog Diogelu Data;
- 2.1.5 Os yw'r prosesu'n angenrheidiol neu ei fod ar gyfer dibenion buddiannau cyfreithlon S4C neu drydydd parti y datgelir y data iddo. Nid yw'r amod hon ar gael os yw'n peryglu hawliau a rhyddid neu fuddiannau cyfreithlon y person sy'n oddrych y data mewn modd y mae'r gyfraith yn ystyried bod y prosesu'n "ddiangen". Ni ddylid dibynnu ar y ddarpariaeth hon heb dderbyn awdurdod penodol y Swyddog Diogelu Data.

2.2 Rheolau Ychwanegol ar gyfer Data Personol Sensitif

Wrth brosesu Data Personol Sensitif, os na chafwyd caniatâd ysgrifenedig penodol gan y person sy'n oddrych y data sydd i'w brosesu, yna rhaid gweithredu un o'r amodau sydd ym mharagraff 2.1, ynghyd ag un o'r gofynion isod:

- 2.2.1 Bod y prosesu'n angenrheidiol at ddibenion gweithredu unrhyw hawl a osodir ar S4C dan y gyfraith neu at ddibenion gweithredu unrhyw oblygiadau a orfodir ar S4C dan y gyfraith ym maes cyflogaeth. Mae hynny'n cynnwys prosesu'r system cyflogau a budd-daliadau a hefyd ar gyfer darparu Datganiad Telerau ac Amodau Cyflogaeth;
- 2.2.2 Bod y wybodaeth yn y data wedi ei gwneud yn gyhoeddus o ganlyniad i ryw beth a wnaed yn fwriadol gan y person dan sylw. Gallai hyn, er enghraifft, ymwneud â rhywun sydd wedi mynegi'n gyhoeddus beth yw eu barn wleidyddol neu eu haelodaeth o undeb llafur;
- 2.2.3 Bod y prosesu'n angenrheidiol i ddibenion, neu'n gysylltiedig ag, unrhyw achos cyfreithiol neu ar gyfer cael cyngor cyfreithiol neu ddelio mewn ffordd arall â hawliau cyfreithiol. Ni ddylid dibynnu ar y ddarpariaeth hon heb dderbyn awdurdod penodol y Swyddog Diogelu Data;
- 2.2.4 Mai prosesu gwybodaeth am darddiad hil neu ethnig yw pwrpas hyn i ddibenion monitro cyfleoedd cyfartal. Ni ddylid dibynnu ar y ddarpariaeth hon heb dderbyn awdurdod penodol y Swyddog Diogelu Data.

2.3 Rheolau Cyffredinol Caniatâd

Gall gofynion cael caniatâd a dynodi hynny fod yn gryn ymdrech. Mewn egwyddor, ni ddylech ystyried bod rhywun wedi rhoi caniatâd os nad ydych wedi canfod bod caniatâd ysgrifenedig wedi ei roi ar gyfer yr achos dan sylw.

3. MONITRO

Mae'n ofynnol i chi gydymffurfio bob adeg â Pholisi Defnyddio E-bost a'r Rhyngrwyd S4C (sydd ar gael ar Fewnrwyd S4C) a gall y defnydd o e-bost a rhyngrwyd gael ei fonitro o dro i dro at ddibenion gwirio bod y defnydd yn cydymffurfio â'r Polisi Defnyddio E-bost a'r Rhyngrwyd.

Bydd monitro o'r fath yn cael ei gynnal dan reolau'r DDD, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a'r Rheoliadau Telathrebu (Arferion Busnes Cyfreithlon) (Ymyrryd mewn Cyfathrebiadau) 2000.

4. I GLOI

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar S4C i sicrhau bod data personol yn cael ei brosesu'n unol â'r gyfraith ac egwyddorion diogelu data. Ni all S4C gydymffurfio â'i chyfrifoldeb cyfreithiol os nad yw'r holl weithlu'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddogfen Rheolau a Chanllawiau hon. Gall y rhai sy'n gyflogedig a swyddogion S4C wynebu atebolrwydd troseddol dan rai amodau os methir â chydymffurfio â'r DDD.

Mae diogelu data'n fater difrifol. Bydd peidio â chydymffurfio â'r ddogfen Bolisi hon yn destun disgyblu a gallai hyn arwain at ddiswyddiad diannod (*summary dismissal*).

Mae S4C yn darparu hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu data ac y mae disgwyl i'r gweithlu fynychu'r hyfforddiant.

Am ragor o wybodaeth am ddiogelu data a'r goblygiadau i chi ac i S4C, dylech gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.